**Grŵp Trawsbleidiol Cymru ar gyfer Cyfarfod Rasio Ceffylau – 22 Mehefin 2022**

Yn bresennol

Aelodau: Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd, Plaid Cyrmu), Alun Davies AS (Llafur), Gareth Davies AS (Ceidwadwyr), James Evans AS (Ceidwadwyr), Samuel Kurtz AS (Ceidwadwyr), Sam Rowlands AS (Ceidwadwyr – wedi cyrraedd am 12:25*)

Staff Cymorth y Senedd: Kiera Marsall, Heleema Khan ac Angela Owen Griffiths (Plaid Cymru)

O fyd rasio: Jack Barton (Ysgrifenyddiaeth), Phil Bell (Cyfarwyddwr Gweithredol caeau ras Cas-gwent a Ffos Las), John Flint (Hyfforddwr Ceffylau Rasio), Alan Johns (Joci Proffesiynol) a Tim Vaughan (Hyfforddwr Ceffylau Rasio)

Ymddiheuriadau: Joel James AS (Ceidwadwyr), Jack Sargeant AS (Llafur)

--

Dechreuodd y cyfarfod am 12:05 gyda Llyr yn croesawu pawb i'r cyfarfod, a gofynnodd i bawb a oedd yn bresennol roi cyflwyniad byr.

Yna, trosglwyddodd Llyr yr awenau i Tim a John ar gyfer trafodaeth am eu gyrfa fel hyfforddwr ceffylau rasio. Soniodd Tim iddo hyfforddi yn y Bont-faen a chyflogi mwy na 50 o staff ar draws ei fusnes (y mae wedi'i arallgyfeirio yn y blynyddoedd diwethaf). Dywedodd John ei fod yn rheoli busnes hyfforddi ceffylau rasio teuluol ger Pen-y-bont ar Ogwr a bod ganddo iard 28 blwch. Aeth eu segment ymlaen yn gyflym i rai o'r materion allweddol y mae hyfforddwyr yng Nghymru yn eu hwynebu, gan gynnwys:

1. Problemau wrth gael caniatâd cynllunio er mwyn ehangu a thyfu eu busnes

2. Gorfod talu mwy o ardrethi busnes nag iard o faint tebyg yn Lloegr – h.y. eu cystadleuaeth uniongyrchol – rhywbeth a waethygwyd gan bandemig Covid-19 gan nad yw iardiau yn Lloegr wedi talu ardrethi o gwbl ers dros 2 flynedd bellach, neu maent wedi talu ardrethi hanner.

    - Mewn ymateb, soniodd nifer o Aelodau am ddiffyg ymwybyddiaeth o'r materion y mae hyfforddwyr yn eu hwynebu ar anterth y pandemig.
    - Nododd Phil y lefelau cryf o gymorth a gafodd caeau ras mewn cymhariaeth, gan gynnwys grant Llywodraeth Cymru i dalu am refeniw coll o Ras Fawr Genedlaethol Cymru.
    - Cadarnhaodd Jack fod Cymdeithas Lletygarwch Prydain wedi codi materion gyda'r system ardrethi busnes i hyfforddwyr ceffylau rasio i'r Dirprwy Weinidog Dawn Bowden mewn cyfarfod blaenorol, pan gafodd ei hannog i lunio cynnig ar gyfer sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi hyfforddwyr er bod gan y llwyth gwaith gwmpas cyfyngedig i weithredu'r gwaith hwn hyd yn hyn.
    - Roedd yr Aelodau a oedd yn bresennol yn cytuno, pan fyddai cynnig yn barod, y byddent yn ei adolygu ac, o bosibl, yn cynnig eu cymorth.

3. Y pwynt trafod mwyaf oedd materion gyda thagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd, gyda Tim a John yn adrodd y bu'n rhaid iddynt gynllunio i staff weithio oriau hwy – gyda chanlyniadau economaidd – oherwydd yr oedi a rhoi mwy o amser hefyd i'w ceffylau gyrraedd lle y maent yn rasio. Yn ogystal, roedd Tim yn teimlo ei fod yn rhwystr i berchnogi ceffylau rasio yng Nghymru a buddsoddi yn y wlad o ganlyniad i hynny. Roedd gan yr Aelodau a oedd yn bresennol farn groes ynghylch a oedd angen datrys y broblem hon.
   - Gofynnodd James i Tim am amcangyfrif o faint roedd yn meddwl ei fod yn costio ei fusnes bob blwyddyn. Amcangyfrifodd Tim y byddai oddeutu £40-50,000, ond y byddai'n rhaid iddo wneud y symiau i gael dadansoddiad mwy cywir o'r costau.
   - Roedd Alun yn glir nad yw'n credu mai ehangu'r M4 o amgylch Casnewydd fyddai'r 'fwled arian' i ddatrys rhai o'r materion a godwyd. Cododd bryderon amgylcheddol hefyd ynghylch adeiladu'r lonydd ychwanegol angenrheidiol ar yr effaith ar ansawdd aer yn y rhanbarth.
   - O ran y pwnc hwn, soniodd Jack fod y diwydiant rasio wedi comisiynu gwaith gan ymgynghorwyr annibynnol yn ddiweddar, ac y byddai'n rhannu crynodeb ag aelodau'r grŵp.
   - Daeth Llyr â’r ddadl am y pwnc hwn i ben drwy nodi'r effeithiau lles posibl y gall oedi eu cael ar geffylau rasio sy’n sownd mewn traffig.

Dyma rai o'r meysydd eraill yr ymdriniwyd â hwy:

<u>Creu’r brand Come Racing in Wales</u>

- Diweddarodd Phil y grŵp ar y cynnydd gyda'r prosiect. Mae'n disgwyl cadarnhad gan Chester Racing Company (a oedd yn berchen ar gwrs Bangor Is-coed) ynghylch gwneud cyfraniad ariannol at y gwaith.
- Soniodd Phil, fel rhan o'r prosiect, y byddai astudiaeth effaith economaidd yn cael ei chomisiynu i ddeall maint diwydiant rasio Cymru yn well. Cytunodd pob aelod y byddai hyn yn gam cadarnhaol.
- Gofynnodd Gareth i Phil a oedd yn teimlo y bu gostyngiad mewn 'anoraciaid' rasio yn dilyn y pandemig. Nododd Phil y bu dynameg newidiol o ran mynychwr rasys, a bod y rhai sy’n dod drwy'r drws fel arfer yn dibynnu ar thema ac ansawdd y cyfarfod sy’n cael ei gynnal.
- Gofynnodd Sam i Phil ai'r bwriad oedd cadarnhau hyfforddwyr Cymru ar wefan Come Racing in Wales er mwyn eu hybu hwy a'u busnesau. Cadarnhaodd Phil mai dyna’i fwriad.
- Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol eistedd gyda'r grŵp trawsbleidiol a thrafod brand Come Racing in Wales - pan fydd wedi cyrraedd cam mwy datblygedig - er mwyn cael barn yr Aelodau am ein cynnig.

<u>Rasio o fan i fan yng Nghymru</u>

- Gofynnodd Llyr i Alan ddisgrifio sut y daeth yn joci proffesiynol. Dywedodd Alan iddo ddechrau marchogaeth mewn rasys o fan i fan fel llawer o'r jocis ifanc yng Nghymru. Soniodd fod hynny’n darparu addysg gadarnhaol ond, yn y pen draw, ei fod wedi troi’n broffesiynol oherwydd bod mwy o wobrau yn y gamp broffesiynol. Dyma farn a rannwyd gan Tim a John oedd a ddechreuodd hyfforddi mewn rasys o fan i fan hefyd cyn cael trwyddedau hyfforddi llawn.
- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth bod rasio o fan i fan yn dirywio yng Nghymru, gyda nifer fach o geffylau’n rasio ac nad yw rhai lleoliadau’n cynnal rasys o fan i fan mwyach. Cadarnhaodd Phil fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i rywfaint o arian gael ei roi i'r awdurdod rasio o fan i

fan yn ystod 2021 a'i fod wedi argymell i'w fwrdd bod hyn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Hyrwyddo'r diwydiant yn y Senedd

- Soniodd Llyr am ddefnyddio amser seneddol yn y Senedd o bosibl i hyrwyddo'r diwydiant a chadarnhaodd y byddai'n ceisio cynnal dadl Aelodau adeg Wythnos Genedlaethol Ceffylau Rasio.
- Awgrymodd Alun fod angen i ni edrych ar sut y gallem dynnu sylw Aelodau eraill o'r Senedd at y grŵp.
- Soniodd Jack y gallem, o bosibl, gynnig yr ymweliad iard grŵp arfaethedig yn chwarter 3 i'r holl Aelodau o'r Senedd er mwyn cael rhai na fyddai'n mynd fel arfer.
- At hynny, crybwyllodd Llyr syniad i ddod â cheffyl rasio i'r Senedd o bosibl, sydd wedi'i drafod fel rhan o waith cynllunio Wythnos Genedlaethol Rasio Ceffylau. Soniodd Tim ei fod eisoes wedi gwneud hyn ar gyfer ymgyrch hyrwyddo flaenorol ac y gallai wneud hynny eto o bosibl.

Daeth Llyr â'r cyfarfod i ben am 1pm a diolchodd i'r rhai oedd yn bresennol.